

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y 12ed o Fedi 2017.

1. **Preseanol:** Gwyndaf Roberts (Cadair), Hefina MW Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Dafydd Wyn Jones, D Martin Williams, Harry Wyn Owen – Talysarn; Barry Bracegirdle, Justin Davies, Dylan Herbert – Penygroes; Dafydd Thomas – Nebo. / **Ymddiheuriadau:** Ffion Jones – Nantlle, Nerys Williams – Penygroes, Sharon Wynne Jones – Talysarn, Judith Humphreys – Cynghorydd Sir.
2. **Cynghorwyr Sir.** Ymddiheuriad wedi ei dderbyn gan Judith – dim ymddiheuriad gan Dilwyn Lloyd na Craig ab Iago. Darllenwyd adroddiad Judith, a'r cyhoeddiad ar gyfer Lleu parthed trefniadau toiledau cyhoeddus Penygroes. Gofynnodd y Cynghorwyr i'r Clerc roi'r cyhoeddiad yn y Caernarfon & Denbigh yn ogystal.
3. **Cyfethol.** Cynnigwyd Llyr Williams (DJ) ar gyfer un o seddi gweigion Penygroes, ac eilwyd (BB) – pawb yn cytuno. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gydag ef a'i wahodd i'r Cyngor nesaf.
4. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan buddiant.
5. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Gorffennaf.** Hefina yn cynnig cywirdeb y cofnodion a Barry yn eilio.
6. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Cerrig yn parhau i fod ar y palmant gwyrdd ger Hafod Unos, Nasareth. Y Clerc yn cadarnhau ei bod wedi cysylltu efo Cyngor Gwynedd eto ynglyn a hyn. Mynegwyd pryder yn y cyfarfod heno am ddiogelwch y ffordd gan fod tyfiant gwyrdd yn cuddio'r cerrig (yn enwedig rwan fod y dydd yn byrhau), a'u bod yn creu perygl cudd i yrrwyr fyddai efallai yn gorfod tynnu mewn i'r ochr pan fydd y bws yn pasio; Cyngorwyr Llanllyfni am gyfarfod i lunio llythyr ar gyfer parcio tai Ffordd Rhedyw. Y Clerc i gysylltu efo Tai Gwynedd; Llwybr 99 a 56 (y rhan sydd uwch i fyny) angen torri.
7. **Taflen Ariannol a Chyllid.** Cymerawywyd y taflenni ariannol. Hysbysodd y Clerc fod cyfrifon 2016-17 wedi eu dychwelyd gan yr Archwildo Allanol wedi eu cwblhau. Darllenwyd argymhellion yr Archwilydd. Cafwyd sylwadau am gyfrif banc Cofeb Baladeulyn oedd wedi ei gau i 'gyfrifon banc cwsg' efo'r HSBC. Er ymdrechion y Clerc, oherwydd rhwystriau nid oedd hyd yma wedi llwyddo i ail-agor y cyfrif. Cynnigwyd fod y mater yn cael ei roi allan i'r cyhoedd i geisio cael gwybodaeth am y cyn-swyddogion a hanes y pwyllgor. Pawb yn derbyn argymhelliadau'r Archwilydd.
8. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio.** Pwyllgor mynwentydd a llwybrau. Darllenwyd y cofnodion. Trafodaethau pellach heno – cwningod ym mynwent MacPelah – cynnig Cyngor Gwynedd yn annerbynniol, a cynnigodd Dafydd Jones opsiwn arall – cysylltu efo Dafydd am rif ffon perchennog fferetiaid; Aeth y Cyngor llawn drwy argymhellion yr is-bwyllgor ar gyfer y gytundeb torri mynwentydd a llwybrau newydd, a chadarnhawyd cymalau'r ddogfen dendro. Penderfynwyd ychwanegu mynwent Bara Caws Llanllyfni'w thorri 3 gwaith y flwyddyn. Pawb yn cytuno efo'r newidiadau. **Pawb yn gytun** fod Cyngor Cymuned Llanllyfni am dendro yn unigol, ac hefyd cesisio pris dau gytundeb cydweithio arall (dau Gyngor neu dri Cyngor yn cydweithio) i weld os y byddai arbedion ariannol drwy gydweithio ond parhau i fod yn annibynnol. Penderfynwyd gofyn am ddau ganolwr efo tendr a thystysgrifau perthnasol. Barry yn dweud fod coed helyg a brwyn yn tyfu yn cae Cwtin, a nad oedd y cae wedi ei dorri o gwbl dros yr haf. Y Clerc yn dweud mai Cyngor Gwynedd oedd yn torri'r cae, gofynnwyd iddi gysylltu efo Iwan Lloyd Williams (cyn-gynghorydd Penygroes) i ofyn wrtho am unrhyw wybodaeth am hanes y cae a chyfrifoldebau.
9. **Cynllunio** C17/0674/22/LL a C17/0617/22/LL – cais i godi adeilad newydd er mwyn darparu 2 fodurdy ac ystafell snwcer uwchben – Goleufryn, Ffordd yr Orsaf **dim gwrthwynebiad**; C17/0619/22/LL – Bod Ychain Uchaf, Nasareth – codi adeilad amaethyddol **dim gwrthwynebiad**; C17/0842/22/LL – Glan Gors, Llanllyfni – codi sied amaethyddol ynghyd a llawr caled ar gyfer troi **dim gwrthwynebiad**; C17/0860/22/LL – 78 Ffordd Rhedyw, Llanllyfni – estyniad cefn **cymeradwyo**.
10. **Gohebiaeth.**
***Cyngor Gwynedd:** Ymatebion priffyrdd: Hafod Unos – llythyr wedi ei yrru gan CG i symud y cerrig ers rhai wythnosau. Y cerrig yn parhau i fod ar y safle. Pryder am ddiogelwch y ffordd, gan fod tyfiant yn cuddio'r cerrig yn y glaswellt a'r dydd yn byrhau – anweledig i yrrwyr cerbydau, ac yn creu perygl yn enwedig pan cerbydau yn dod wyneb yn wyneb a bysiau a loriau ac yn y blaen ac angen tynnu i'r ochr.

*Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon 2011-2026. Yr wybodaeth yn llyfrgelloedd y sir.

*Gwaharddiadau Trafniadaeth dros dro yn ystod Medi – Heol y Bedyddwyr Penygroes a Ffordd Coedmadog Talysarn. Y gwaith wedi ei gwblhau.

*Toiledau Cyhoeddus Penygroes – derbyniwyd copi o ddatganiad gan Judith i'w roi yn Llew er mwyn hysbysu'r cyhoedd am y trefniadau newydd yn y pentref. Cymeradwywyd gan y Cyngor a gofynwyd i'r Clerc yrru copi i'r Caernarfon and Denbigh yn ogystal.

*Arall

*Parc Cenedlaethol Eryri – Nosweithiau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Er gwybodaeth.

*Gwybodaeth am ddiwyddiad 'Cymorth Cynllunio Cymru' – Abertawe 25/9. Er gwybodaeth.

*Un Llais – Diwygio Deddfwriaeth Diogelu Data – er gwybodaeth.

*Un Llais – Panel Dyfarnu Cymru a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Cysylltu yn ol a gofyn os y byddan nhw yn fodlon ystyried cynnal rhai o'u cyfarfodydd yn y Gogledd yn y dyfodol.

*Un Llais – Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol – digwyddiadau. Er gwybodaeth.

*Un Llais – Seminar – Defnyddio dulliau cyflwyno amgen er mwyn cyflwyno gwasanathau cyhoeddus.

*Clystyru – cefnogaeth ariannu. OP wedi dilyn i fyny a gofyn am fwy o wybodaeth. Dipyn o rwsytrau yn y broses o geisio am y cefnogaeth. Penderfynwyd trafod yn y cyfarfod cydweithio nesaf.

*Gweithdai Llywodraeth Cymru ar gyfer cynrychiolwyr lleol ar reoli gwaredu gwastraff ymbelydrol actifedd uwch.

*Dyddiadau pwyllgorau Un Llais. Er gwybodaeth.

*Ymgynghoriad –Diwygio Etholiadol. Manylion ar y we.

*Bwletin Un Llais. Er gwybodaeth.

*Un Llais – Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru. Er gwybodaeth.

*Un Llais – Cylchlythyr FfFDGC Cymru. Er gwybodaeth.

*Cofrestru arfaethedig Cadw – Cofeb Penyrsedd. Holi Amgueddfa Llanberis os y bu iddynt wneud cast o'r gofeb. Holi am berchnogaeth y gofeb – angen cadarnhau un ffordd neu'r llall os mai perchennog yntau gofalwr yw'r Cyngor Cymuned. Mae dwy garreg yn Talysarn ar dir yr Eglwys i gofio chwarelwyr Dorothea – holi'r Eglwys eto beth sy'n digwydd i'r rhainy nawr fod yr Eglwys wedi cau. OP yn datgan fod angen cofnod o dreftadaeth ar y Dyffryn – cofnod balch o'r chwarelwyr. Byddai cael Canolfan Hanes yn un syniad, a gall yr Eglwys yn Nhalysarn fod yn leoliad delfrydol. Syniad efallai cynnal cyfarfod cychwynol. Holi yn lleol.

*Ymgynghoriad cyn ymgeisio – tir cyfagos Pant Du, Ffordd y Sir, Penygroes. Yr wybodaeth wedi ei rannu efo'r Cynghorwyr.

11. **Materion Pentrefi : Nebo** – Canglwm Siapaniaidd Cors y Llyn. Rhwyng Ffordd y Llyn a Pant y Gog, ac wedi ymledu at ochr arall y ffordd ac i'r Bwrdd Dwr. Holi Adran Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd am arweiniad i waredu JapaneseKnotweed mewn mannau cyhoeddus; Pont wrth y Llyn – tyllau yn y pren – llwybr 102; Talysarn Pont bren i fyny at Tanrallt mewn cyflwr ofnadwy ac angen adnewyddu'r preniau. Coeden wedi disgyn ar y llwybr hefyd; Ymholiadau am adeiladu tai yn cae Coed Madog – dim ceisiadau wedi dod ger bron; Llanllyfni Pont dros yr afon Llyfni (Pont Rectory) – railing wedi cael ei phlygu a'r llwybr yn anwastad; Penygroes Golwg yn Cwtin – coed helyg yn ymledu o'r tu allan, a gwair yn dal iawn. Gwneud mwy o ymholiadau efo Cyngor Gwynedd am dorri'r cae, a holi Iwan Lloyd Williams am rywfaint o hanes torri'r cae.

12. **Llwybrau a Mynwentydd.** Nigel Schofield – ebyst; Gordyfiant llwybr Weirglodd Hendy 35; Llwybr Boncen Eithin – tyllau 15; Llwybr 116 Cais Angharad Tomos; Toriadau mynwentydd ac ati; Hanes mynwent Bara Caws. Trafodwyd y materion uchod. Gorphwysfa dau glo wedi dechrau rhydu; Gofyn am ddiweddariad llwybr o giat safle Cilgwyn i Bluebell Cottages am Talysarn.

13. **Materion yn ymwed a'r heddlu.**

14. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngrwyd Clerc £25 a £25; Derbynebaw Clerc£40.18 a £62.00 a £15.60; Scottish Power £42.54 a £47.88. Designer Signs £42.00; Trinity Mirror £92.24, Taliad Praesept wedi ei dderbyn. Caniatau.

15. **Ceisiadau am arian** - Pwyllgor Ardal Nebo Nasareth – cais am nawdd i ariannu taflen 'croeso'. Y grwp Wedi dod i drefniant yn y pentref – dileu y cais.